# Gwahanol fathau o Siswrn



**Sisyrnau Easi-Grip a Mini Easi-Grip**
Mae Siswrn Easi-Grip® Mini dwy ran o dair yn llai o faint Siswrn Easi-Grip® safonol ac mae'n ddelfrydol ar gyfer datblygu sgiliau siswrn Blynyddoedd Cynnar neu ar gyfer anghenion arbennig oherwydd dwylo gwan neu ddwylo bach. Gellir defnyddio'r fersiynau oedolion
a'r fersiynau plant yn y rhan fwyaf o achosion gyda'r llaw chwith a'r llaw dde.



**Long Loop Easi-Grip Scissors**
Mae Long Loop Easi-Grip® Scissors yn siswrn hunan-agor ysgafn iawn ac maent yn rhoi budd ychwanegol gan bod ganddynt handlen dolen hir sy'n rhoi mwy o sefydlogrwydd. Maent wedi'u cynllunio ar gyfer y rheiny sydd â dwylo a garddynau gwan neu'r rheiny nad ydynt yn gallu defnyddio siswrn arddull confensiynol oherwydd bod eu cymalau wedi chwyddo ac yn boenus.



**Long Loop Scissors**
Dyluniwyd ein Siswrn Dolen Hir gyda dolen estynedig er mwyn rhoi mwy o gryfder a rheolaeth wrth dorri. Maent yn helpu plant sydd â rheolaeth motor gwan, gan gynnwys y rhai â dyspracsia a chyflyrau tebyg



**Long Loop Self-Opening Scissors**
Dyluniwyd y Siswrn Hunan-Agor Dolen Hir gyda dolen estynedig er mwyn rhoi mwy o gryfder a rheolaeth wrth dorri ac maent yn rhoi budd ychwanegol gan bod ganddynt sbring sydd wedi'i guddio sy'n ailagor y siswrn yn awtomatig, gan ganiatáu i'r plentyn ganolbwyntio ar drin y papur a chyfarwyddo'r toriad.



**Child Self-Opening Scissors**
Siswrn arddull confensiynol gyda sbring cudd a fydd yn gorfodi'r llafnau yn ôl i safle agored ar ôl i'r plentyn ollwng ei afael. Mae ein Siswrn Hunan-Agor ar gyfer Plant yn ddelfrydol ar gyfer plant mewn lleoliad prif ffrwd sydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol wrth ddefnyddio siswrn.



**Standard Left Hand Scissors**
Mae gan y siswrn llaw chwith safonol hyn ardal fwy ar gyfer cyswllt gyda'r bysedd sy'n eu gwneud yn gyffyrddus i'w defnyddio wrth dorri papur a cherdyn tenau allan. Delfrydol i'w ddefnyddio gartref neu yn yr ysgol.



**Dual Control Teaching Scissors**
Datblygwyd ein Dual Control Teaching Scissors trwy ymgynghori â Therapyddion Galwedigaethol i a'i nod yw cynorthwyo plant sydd â chydlyniad gwael rhwng y llaw a'r llygaid, nad oes ganddynt y cryfder i wneud y weithred o dorri, sydd â llaw sigledig a phlant nad ydynt yn gallu gosod y siswrn mewn man cychwynnol.



# Sisyrnau Arbenigol

**Push Down Table Top Scissors**



Mae'r Push Down Table Top Scissors yn hawdd eu defnyddio, dim ond gweithred gwthio i lawr ar yr handlen siâp "T" sydd ei angen. Bydd y sbring yn ailagor y siswrn yn awtomatig unwaith y bydd y pwysau yn cael ei ryddhau. Gellir ei ddefnyddio naill ai trwy gadw’r papur mewn man sefydlog a "gwthio’r" siswrn yn eu blaenau gyda phob gweithred dorri; neu drwy gadw'r siswrn yn sefydlog (gall mat Dycem® helpu gyda hyn) a symud y papur tuag at y siswrn.

**Mounted Table Top Scissors**



Mae'r Mounted Table Top Scissors wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan y rhai sydd ag ychydig iawn o gryfder a rheolaeth, neu gellir eu defnyddio trwy ddefnyddio un llaw. Yn syml, dylid gwthio’r papur neu'r cerdyn ar hyd y sylfaen nes ei fod yn ei le, yna gwthio'r handlen siâp "T" i dorri. Bydd y sbring cudd yn ailagor y llafnau'n barod ar gyfer y toriad nesaf yn awtomatig. Yn aml mae'n fanteisiol defnyddio'r llaw fwy deheuig i drin y papur tra bo'r llaw yr effeithir arni yn gweithio'r siswrn. Mae'r mounted table top scissors yn dod gyda dewis o sylfaeni. Mae'r sylfaen bren gyda stribedi Dycem® ar gyfer sefydlogrwydd, neu'r sylfaen blastig gyda thraed rwber, sy'n ysgafn, ond yn sefydlog.